

TELERAU AC AMODAU AR GYFER DOSBARTHIAU NOFIO MEWN PYLLAU NOFIO A REOLIR GAN AURA

Cyhoeddwyd 8 Awst 2019

1. EIN TELERAU

1.1 Sylwch fod unrhyw sôn o 'Aura' yn y telerau ac amodau hyn yn cynnwys holl Ddosbarthiadau Nofio Aura.

1.2 Rhaid i'r rheiny sy'n dymuno mynychu dosbarth Aura gytuno i'r telerau ac amodau sydd wedi'u nodi isod. Yn yr achos annhebygol y bydd cwsmer yn methu cadw at y telerau a'r amodau hyn, mae'n bosib y gofynnir i'r cwsmer rhoi'r gorau i wersi ag Aura. Yn yr achos hwn, ni fydd Aura dan unrhyw rwymedigaeth i roi ad-daliad ar gyfer unrhyw wersi sy'n weddill.

1.3 **Beth mae'r telerau hyn yn cwmpasu.** Dyma'r telerau ac amodau yr ydym yn eu defnyddio wrth ddarparu dosbarthiadau nofio Aura i chi.

1.4 **Pam y dylech eu darllen** Darllenwch y telerau hyn yn ofalus cyn archebu ein dosbarthiadau. Bydd y telerau hyn yn eich hysbysu o bwy ydym ni, sut y byddwn yn darparu dosbarthiadau i chi, sut y gallwch chi neu ni newid neu ddiweddu'r contract, beth i'w wneud os oes problem ac unrhyw wybodaeth bwysig arall. Os ydych chi o'r farn bod camgymeriad yn y telerau hyn, cysylltwch â ni i'w drafod.

2. GWYBODAETH AMDANOM NI A SUT I GYSYLLTU Â NI

2.1 **Pwy ydym ni.** Mae Aura yn sefydliad elusennol, dielw, sydd yn gyfrifol ers 1 Medi 2017, am reoli'r mwyafrif o ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd a weithredwyd yn flaenorol yn uniongyrchol gan Gyngor Sir y Fflint. Mae Aura Leisure and Libraries Limited wedi'i gofrestru dan Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 (Rhif cofrestru 7610).

2.2 **Sut i gysylltu â ni.** Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid ar 01352 702437 neu drwy ysgrifennu at info@aura.wales

2.3 **Sut y byddwn yn cysylltu â chi.** Os oes rhaid i ni gysylltu â chi, byddwn yn gwneud hynny drwy ffonio neu ysgrifennu atoch yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth archebu dosbarthiadau.

3. EIN CONTRACT Â CHI

3.1 Archebu dosbarth

3.1.1 Gallwch archebu dosbarth dros y ffôn, wyneb yn wyneb yn eich canolfan hamdden Aura leol neu drwy gysylltu â'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid.

3.1.2 Mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bersonol benodol i archebu lle mewn dosbarth â ni. Gweler manylion llawn am yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adran 'Polisi Preifatrwydd' ar ein gwefan: <https://aura.cymru/polisi-preifatrwydd-gwirfoddolwyr-aura/>

3.1.3 Ar ôl archebu, byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau, yn nodi beth yn union yr ydych wedi'i archebu ac yn darparu dolenni at wybodaeth yn ymwneud â'r pwll a dosbarthiadau perthnasol. Bydd ein Telerau ac Amodau diweddaraf ar gael drwy ein tîm gwasanaeth cwsmeriaid a thrwy eich canolfan hamdden Aura leol.

3.1.4 Mae'r holl amserlenni dosbarth yn gywir ar adeg cyhoeddi. Os yw amser eich dosbarth yn newid, bydd eich pwll lleol yn eich hysbysu o hyn.

3.1.5 Caiff dosbarthiadau a gweithgareddau pwll yn ystod y gwyliau eu cynnal fel digwyddiadau ar wahân i'n dosbarthiadau rheolaidd. Bydd y taliad ar gyfer y rhain yn cael ei gymryd ar wahân i'ch taliadau misol awtomatig ac ni fydd yn effeithio ar y dyddiadau y mae eich taliad rheolaidd yn ddyledus.

3.1.6 Mae ein prisiau i gyd yn cynnwys TAW cyfradd safonol lle bo'n berthnasol.

3.2 Gwneud taliad

3.2.1 Rhaid talu am wersi ymlaen llaw. Bydd eich taliad cyntaf am 10 gwrs yn seiliedig ar eich ffi ddosbarth bresennol (boed a ydych yn gwsmer newydd neu'n gwsmer sy'n dychwelyd). Bydd eich taliad nesaf yn ddyledus rhwng wythnos 3 ac wythnos 7 a bydd y taliad hwn am 10 wythnos arall.

3.2.2 Os ydych yn dewis talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, byddwch yn talu ar y diwrnod yr ydych yn cofrestru ac yn cael eich derbyn ar gwrs o wersi. Bydd eich taliad cyntaf ar sail pro rata i sicrhau eich lle tan ddyddiad eich taliad Debyd Uniongyrchol cyntaf. Mae'r dyddiadau talu naill ai ar y 5^{ed} neu'r 19^{eg} diwrnod o'r mis.

3.2.3 Mae'r taliad debyd uniongyrchol misol yn seiliedig ar eich plentyn yn derbyn un wers nofio dan arweiniad hyfforddwr yr wythnos am 50 wythnos mewn blwyddyn galendr.

3.2.4 Bydd swm eich taliad misol yn seiliedig ar eich ffi ddosbarth bresennol a ostyngir gan unrhyw gredyd ar eich cyfrif e.e. credyd gan fod dosbarth wedi'i chanslo, gwyliau banc a digwyddiadau arbennig.

3.3 Defnyddio 'Taleb Anrheg Aura' i dalu am wersi yn llawn neu'n rhannol: 3.3.1 Cwsmeriaid newydd: Os hoffech chi ddefnyddio un o'n 'Talebau Anrheg Nofio Aura' i dalu am eich 10 gwrs gychwynnol yn llawn neu'n rhannol, siaradwch ag aelod o'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid neu eich canolfan hamdden leol a byddant yn addasu swm eich taliad cyntaf a'r taliad dilynol fel bo'n briodol.

3.3.2 Cwsmeriaid presennol: Os hoffech chi ddefnyddio un o'n 'Talebau Anrheg Nofio Aura' i dalu am eich gwrsi yn llawn neu'n rhannol, siaradwch ag aelod o'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid neu eich canolfan hamdden leol a byddant yn addasu swm eich taliad cyntaf a'r taliad dilynol fel bo'n briodol.

3.3.3 Sylwer nad oes modd rhoi newid os yw'r gost yn llai na gwerth y daleb anrheg. Bydd gwerth gweddilliol y daleb yn aros ar eich cyfrif a bydd swm eich taliad misol nesaf yn is o'r herwydd.

3.3.4 Noder bod ein talebau anrheg yn dod i ben 12 mis ar ôl diwrnod y pyniant.

3.3.5 Os yw ffi eich dosbarth yn newid, bydd y tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn eich hysbysu o'ch atodlen daliadau ddiwygiedig ar gyfer y 12 mis nesaf.

3.3.5 Os yw ffi eich dosbarth yn newid, byddwch yn derbyn e-bost gan y tîm gwasanaeth cwsmeriaid i'ch hysbysu.

3.3.7 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod digon o arian yn eich cyfrif wrth dalu â Debyd Uniongyrchol. Os nad eich taliad Debyd Uniongyrchol wedi bod yn llwyddiannus byddwch yn cael gwybod drwy e-bost. Yna, bydd rhaid i chi dalu eich Canolfan Hamdden Aura leol neu eich tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn uniongyrchol er mwyn cadw eich lle yn y dosbarth.

3.3.8 Os ydych yn dymuno rhoi'r gorau i Wersi Nofio Aura, rhaid cyflwyno rhybudd ysgrifenedig o 30 diwrnod drwy e-bost at eich Canolfan Aura leol neu'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid. Rhaid talu am unrhyw wers o fewn eich cyfnod rhybudd. Ni fydd taliadau Debyd Uniongyrchol pellach yn cael eu cymryd wedi'r cyfnod rhybudd o 30 diwrnod.

3.3.9 Os ydych wedi talu am wersi y tu hwnt i'r cyfnod rhybudd o 30 diwrnod mae croeso i chi fynychu'r gwersi hyn neu ofyn am ad-daliad. Gwneir ad-daliad ar ddiwedd y 30 diwrnod.

4. Newidiadau munud olaf i wersi neu wersi'n cael eu canslo gennym ni

4.1.1 Yn yr achos annhebygol y bydd rhaid i ni newid neu ganslo gwers 'funud olaf' bydd y tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn eich hysbysu o hyn gan roi cymaint o rybudd â phosibl.

4.1.2 Os yw gwers yn cael ei chanslo gan Aura, byddwn yn rhoi credyd am werth y wers a ganslwyd ar eich cyfrif. Gostyngir swm eich taliad nesaf yn cael ei ostwng o'r gwerth hyn.

4.1.3 Os ydych yn penderfynu gadael gwersi Aura cyn bo'r credyd wedi dod i ben byddwn yn ad-dalu'r credyd i chi.

4.1.4 Os nad oes nifer digonol o blant wedi archebu lle yn y dosbarth, rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r dosbarth. Yn yr achos hwn, byddwch yn derbyn credyd am unrhyw wersi sydd yn weddill ar ôl canslo. Byddwn yn cynnig naill ai (i) dosbarth arall neu (ii) byddwn yn rhoi ad-daliad ariannol.

5. Methu mynd i wers?

5.1.1 Os ydych yn gwybod na fyddwch yn gallu mynd i wers, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

5.1.2 **Eiddo Personol:** Ni all Aura dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo personol ger ochr y pwll.

5.2 Hawliau Canslo

5.2.1 Nid yw'r hawliau canslo sydd ar gael i gwsmeriaid yn gyffredinol, yn unol â'u hawliau statudol, yn berthnasol i'r dosbarthiadau a ddarperir gennym ni.

5.2.2 Fodd bynnag, fel arwydd o ewyllys da, mae gan ein cwsmeriaid yr hawl i ganslo gyda rhybudd o 30 diwrnod a byddwn yn ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus ar ôl y cyfnod rhybudd hwn.

5.3 Newidiadau i'n telerau ac amodau

Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'n Telerau ac Amodau ar unrhyw adeg i adlewyrchu newidiadau yn ein busnes neu rwymedigaethau statudol. Bydd y fersiwn newydd yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan a bydd yn dod i rym yn syth ar ôl ei chyhoeddi. Os yn berthnasol, bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'n cwsmeriaid drwy e-bost. Os ydych yn archebu gwersi wedi i'r Telerau ac Amodau newydd ddod i rym, fel rhan o'r broses archebu, bydd gofyn i chi nodi eich bod yn cytuno i gael eich rhwymo ganddynt. Gellir gwneud cais am fersiynau blaenorol o'n Telerau ac Amodau yma: info@aura.wales.

5.4 Ymddygiad a chyfrifoldebau

5.4.1 Rhaid i blant sydd yn mynychu dosbarthiadau i Fabanod a Phlant Cyn Ysgol: *Paddlers* i Fabanod, *Paddlers* Bychain, *Paddlers* i Blant Bach fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol yn y pwll.

5.4.2 Mae cwsmeriaid yn gyfrifol am y plant yn eu gofal ar bob adeg (oni bai yn ystod dosbarth lle NAD yw'r plentyn yng nghwmni'r oedolyn yn y pwll, hynny yw, Gwersi Nofio Aura) a rhaid iddynt hysbysu'r athro /athrawes o unrhyw bryder cyn dechrau'r wers.

5.4.3 Mae disgwyl i gwsmeriaid ymddwyn yn waraidd tuag at yr athro / athrawes, cwsmeriaid eraill Aura ac unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn defnyddio'r un pwll, ac mae disgwyl iddynt ymatal rhag defnyddio iaith anwedus ar bob adeg.

5.4.4 Gall Aura, yn ôl ei ddisgresiwn, wrthod mynediad i gwsmer os yw'n ystyried bod ymddygiad y cwsmer yn annerbyniol.

5.4.5 Rhaid i gwsmeriaid dderbyn ar adegau y bydd cyswllt corfforol rhwng yr athro / athrawes a'u plant, ond bydd yr athro / athrawes bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn ofalgar.

5.4.6 Cyfrifoldeb y cwsmer yw hysbysu'r swyddfa leol a'r athro / athrawes o unrhyw gyflwr a allai effeithio ar ei allu / gallu ei blentyn / plant yn y pwll nofio. Mae'n rhaid i chi gytuno i'n hysbysu o unrhyw newid, cyn gynted ag ydych yn ymwybodol ohono. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â'ch pwll lleol. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu i ni yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

5.4.7 Gwaetha'r modd, yn ystod ein gwersi i fabanod a phlant cyn ysgol, gallwn ond darparu lle i un unigolyn yn y pwll ar y tro gyda phob plentyn. Rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn riant neu ofalwr dynodedig i'r plentyn a rhaid iddo hefyd fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn. Rhaid i unrhyw un sy'n newydd i'r dosbarth roi gwybod i'r athro / athrawes ar ddechrau'r sesiwn er mwyn iddo / iddi allu darparu'r cymorth a chyingor ychwanegol angenrheidiol. Caniateir gwylwyr, ond rhaid iddynt fod yn aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau.

5.4.8 Rhaid i gwsmeriaid ddilyn gweithdrefnau'r pwll y cyflëwyd iddynt at ar yr amser cadarnhau. Cadwch at y cyfarwyddiadau a roddwyd i chi o ran parcio, a'r ffordd i fynd i fewn ac allan o'r pyllau.

5.4.9 Dylai cwsmeriaid anelu i gyrraedd ddim cynt na 15 munud cyn dechrau'r wers a gadael ddim hwyrach na 15 munud ar ôl y wers er mwyn ceisio sicrhau bod digon o le yn yr ystafelloedd newid.

5.4.10 Yn ystod ein gwersi i Fabanod a Phlant Cyn Ysgol, ni ddylid gadael seddi plant a phramiau ac ati yn yr ystafelloedd newid, bydd ein timau lleol yn sicrhau bod ardaloedd diogel ar gael i'w gadael.

5.4.11 Ni chaniateir bwyd yn ardal y pwll.

5.4.12 Ceisiwch leihau'r llanast ar y llawr e.e. mwd neu laswellt. Rhowch wybod i aelod o dîm nofio Aura neu'r staff hamdden os yw'r llawr yn fudr a/ neu angen ei lanhau.

5.4.13 Ni chaniateir ysmegu ar y safle nac ychwaith o fewn unrhyw un o adeiladau'r pwll.

5.4.14 Mae athrawon Aura yn meddu ar gymhwyster addysgu gan Gymdeithas yr Athrawon Nofio neu Nofio Cymru. Mae pob un o'n hathrawon wedi'u hyswiro drwy Aura (Yswiriant Zurich) ac yn meddu ar gymhwyster diogelu yn ogystal â gwiriad dilys gan y GDG.

5.4.15 Mae diogelwch a lles eich plentyn neu'r plentyn yn eich gofal yn bwysig iawn i Aura. Mae gennym gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw ymddygiad amheus neu amhriodol i'r awdurdodau perthnasol.

6. BETH I'W WISGO

6.1 Yn ein dosbarthiadau i blant cyn ysgol a mewn perthynas â phlant eraill nad ydynt eto wedi dysgu sut i ddefnyddio'r toiled, rydym yn gweithredu polisi 'dau glwt'. Rhaid gwisgo clwt nofio neopren sydd yn ffitio'n gywir o amgylch y canol a'r coesau a dylid hefyd gwisgo clwt nofio arall (naill ai clwt nofio papur untro neu glwt nofio cotwm y gellir ei ailddefnyddio gyda leinin untro) oddi tano. Gofynnwch yn eich pwll lleol os ydych yn ansicr o beth i'w wisgo. Mae croeso i blant wisgo siwtiau nofio, trôns nofio, siwtiau gwlyb i fabanod a dilladau eraill tebyg ond rhaid iddynt wisgo'r 'clwt dwbl'

os nad ydynt wedi dysgu sut i ddefnyddio'r toiled eto. Mae Aura'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw blentyn sydd wedi gwisgo'n amhriodol.

6.2 Gwersi nofio: Dylai bechgyn wisgo trôns nofio. Dylai merched wisgo siwt nofio un darn. Ni chaniateir trôns nofio Bermuda neu siwtiau nofio llac gan y gall y rhain lusgo yn y dŵr ac achosi oedi wrth i'ch plentyn nofio pellter.

6.3 Rhaid i blant dynnu unrhyw emwaith rhydd neu finiog cyn mynd i'r pwll. Ni chaniateir clustlysau cylch.

6.4 Rhaid i'r holl blant sy'n cymryd rhan yn y gwersi nofio wisgo hetiau nofio. Nid oes rhaid i blant yn ein dosbarthiadau *Paddlers* wisgo hetiau nofio.

6.5 Rhaid i oedolion wisgo dillad nofio priodol yn y pwll, tynnu gemwaith rhydd neu finiog, clymu gwallt hir yn ôl neu wisgo het nofio.

6.6 Rhaid tynnu plastrau a chlipiau gwallt cyn mynd i nofio oherwydd bod perygl iddynt ddod i ffwrdd yn y dŵr a difrodi hidlwyr y pwll.

6.7 Ni chaniateir esgidiau ger ochr y pwll oni bai y gwisgir gorchuddion esgidiau.

6.8 Gogls – rydym yn caniatáu defnydd gogls yn ein gwersi sblash ac uwch.

6.9 Mewn dosbarthiadau i Fabanod a Phlant Cyn Ysgol ni chaniateir i blant wisgo sbectols oni bai bod ganddynt strap ar y cefn i'w hatal rhag disgyn. Ni chaniateir i blant sydd yn gwisgo sbectols neidio i'r pwll tra'n gwisgo'u sbectols. Yn ystod gwersi nofio, ni chaniateir sbectols - rhaid eu newid am bâr o ogls â lensys presgripsiwn.

7. IECHYD A DIOGELWCH

7.1 Ni ddylech ddod â'ch plentyn i nofio os yw'n dioddef â salwch megis haint yn y glust, y frech ieir, impetigo, llid pilen y llygad neu annwyd trwm. Cawsom ein cynghori na ddylech ddod â'ch plentyn i'r pwll am 48 awr ar ôl salwch neu ar ôl dioddef o ddolur rhydd. Ar gyfer unrhyw salwch arall ac i osgoi unrhyw amheuaeth, dylech aros nes bod eich doctor wedi rhoi caniatâd cyn dychwelyd i'r dosbarth.

7.2 Ni ddylai nofwyr gamu i'r pwll nes bod yr athro / athrawes yn dweud ei bod yn ddiogel i wneud hynny ac rhaid rhoi gwybod i'r athro / athrawes os am adael y pwll cyn diwedd y sesiwn.

7.3 O ran dosbarthiadau babanod a chyn-ysgol, dylech fynd â chlytiau budr â chi wrth adael oni bai fod bin arbennig ar gyfer clytiau wedi'i ddarparu. Peidiwch â gadael clytiau mewn bin agored (yn cynnwys y biniau hynny sydd wedi'u lleoli y tu allan ger y ganolfan hamdden). Peidiwch â rhedeg na chaniatáu i'ch plentyn redeg ger ochr y pwll, na bwyta neu gnoi gwm yn ystod y wers.

7.4 Rhaid i bob nofiwr fynd i'r gawod cyn camu i mewn i'r pwll. Peidiwch â gwisgo colur neu eli ar y corff ac ati, gan fod y rhain yn amharu ar ansawdd y dŵr yn y pwll.

8. EIDDO COLL A PHETHAU GWERTHFAWR

8.1 Mae unrhyw eiddo sy'n cael ei adael o fewn adeiladau'r pyllau nofio neu'r safleoedd yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r: maes parcio, y fynedfa, ardaloedd gwylwyr, ardaloedd newid ac ardaloedd ger ochr y pwll, yn cael ei adael ar eich menter eich hun. Sicrhewch fod eich holl eiddo â chi cyn gadael.

8.2 Cedwir eiddo coll am gyfnod o 30 diwrnod os caiff ei ganfod gan aelod tîm Aura. Os nad oes unrhyw un yn hawlio'r eiddo bydd yn cael ei waredu yn unol â hynny. Gwaetha'r modd, os nad aelod o'r tîm Aura sydd yn canfod yr eitem ni ellir ein dal yn gyfrifol.

8.3 Sylwer y bydd eitemau bach sydd wedi'u gadael ar ôl megis siampŵ, dymis, hosanau ac ati yn cael eu gwaredu ar ddiwedd pob diwrnod.

9. FOTOGRAFFIAETH A FIDEOS

9.1 Sylwch fod unrhyw sôn o 'Ffotograffiaeth' yn y telerau ac amodau hyn yn cynnwys tynnu ffotograffau a fideo. 9.2 Ni chaniateir ffotograffiaeth yn yr ystafelloedd newid.

9.3 Mewn perthynas â gwersi i fabanod a phlant cyn ysgol, caniateir ffotograffiaeth ar ddiwedd y dosbarth yn unig ac ni ddylai hyn amharu ar y wers. Dylid sicrhau nad oes unrhyw gwsmer arall i'w weld yng nghefnidir y llun. Rhaid sicrhau eich bod yn symud eich plentyn / perthynas at ochr y pwll ymhell o weddill y cwsmeriaid. Gwaherddir ffotograffiaeth ar unrhyw adeg arall.

9.4 Gwaherddir ffotograffau neu fideos o dan y dŵr.

9.5 Cynghorir rhieni, sydd yn pryderu bod eu plentyn mewn llun a dynnwyd gan gwsmer arall, i siarad ag aelod o dîm Pwll Aura, ac os yw hyn yn wir byddwn yn mynnu bod y llun yn cael ei ddileu.

9.6 Rhaid i chi gadw ar reolau'r pwll mewn lleoliadau unigol. Mewn rhai amgylchiadau, gwaherddir pob math o ffotograffiaeth a byddwn yn eich hysbysu o hyn.

9.7 Ni chaniateir ffotograffiaeth lle bo'r pwll yn cael ei rannu ag aelodau o'r cyhoedd.

9.8 Oherwydd fformat y dosbarthiadau, ni chaniateir ffotograffiaeth ar unrhyw adeg yn ystod gwersi nofio.

9.9 Mae Aura yn gwahardd yr hawl i atgynhyrchu unrhyw ran o gynnwys ein gwersi mewn unrhyw fformat (e.e. ar y we, DVDs, ffotograffau ac ati).

9.3.10 Gofynnir i unrhyw un y tybir ei fod un ffilmio neu'n tynnu ffotograffau o'r gwersi at ddibenion cyhoeddi adael y pwll nofio ac ni chaniateir iddo barhau â'i siwrnai nofio ag Aura.

9.3.11 Mae gan yr athro neu'r aelod o staff yn y wers yr hawl i weld y lluniau a dileu'r lluniau a dynnwyd yn y pwll.

9.3.12 Ym mhob achos, mae penderfyniad yr aelod staff Aura yn derfynol.

10. ATHRAWON

10.1 Er y byddwn bob amser yn ceisio sicrhau bod yr un athro / athrawes yn arwain dosbarth benodol, ni allwn sicrhau hyn bob amser, oherwydd y gall athrawon fynd yn sâl, gadael neu ganslo oherwydd rhesymau personol. Ar adegau, efallai y bydd rhaid i ni hefyd drefnu bod athro / athrawes newydd yn ymuno neu'n arwain eich dosbarth er mwyn iddynt allu cwblhau hyfforddiant neu asesiadau. Ni ddylai hyn effeithio ar gydraddoldeb eich sesiwn.

11. DILYNIANT DRWY LEFELAU EIN RHAGLEN NOFIO

11.1 Bydd nofwyr yn dilyn y Cynllun Pasbort Aqua ar gyfer dysgu. Bydd eich plentyn yn cael ei asesu yn barhaus a bydd y Cydlynnydd Nofio yn y pwll yn rhoi gwybod i chi os oes newid mewn amser neu

ddiwrnod o ganlyniad i gynydd. Os hoffech ddiweddariad ar allu nofio eich plentyn gofynnwch yn y dderbynfa am gerdyn cynnydd.

12. DIOGELU DATA A DIOGELWCH AR-LEIN

12.1 Er mwyn archebu dosbarth Aura, mae'n rhaid i chi gofrestru eich manylion a manylion eich plentyn / plant â ni. Bydd y manylion hyn yn cynnwys eich enw, eich rhif ffôn symudol a llinell dir, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad cartref, manylion cyswllt brys, dyddiad geni eich plentyn ac unrhyw gyflwr perthnasol a allai gael effaith arnoch chi neu eich plentyn yn y pwll.

12.1.1 **Pa wybodaeth ydym yn ei chasglu amdanoch chi?** Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch pan fyddwch yn cofrestru gyda ni i gael mynediad at ein gwasanaethau a chynhyrchion. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch yn cwblhau arolygon cwsmeriaid yn wirfoddol, yn rhoi adborth ac yn cyfranogi mewn cystadlaethau. Mae gwybodaeth am ddefnydd o wefannau'n cael ei chasglu'n defnyddio cwicis.

12.1.2 **Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?** Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch i sicrhau ein bod yn gallu rhoi gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd diogel a llawn mwynhad i chi, i reoli ein cyfrifon cwsmeriaid i bob pwrpas, ac os ydych chi'n cytuno, i gysylltu â chi am gynhyrchion a gwasanaethau eraill a gynigiwn, yr ydym ni'n meddwl a fyddai o ddiddordeb i chi. Ni fydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig yn rhannu eich gwybodaeth ar gyfer dibenion marchnata gyda chwmnïau'r tu allan i Grŵp Aura. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo neu ei rhannu gydag unrhyw sefydliad arall y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA).

12.1.3 **Marchnata Gwasanaethau Aura** Hoffem anfon gwybodaeth atoch am gynhyrchion a gwasanaethau Aura a allai fod o ddiddordeb i chi. Os hoffech chi dderbyn mwy o wybodaeth, yna mae croeso i chi danysgrifio drwy eich cyfrif Aura ar-lein.

12.2 Bydd eich enw chi neu enw eich plentyn / plant a'u hoeddrannau a'u hanghenion penodol i'w gweld ar ein cofrestrau dosbarth er mwyn i'n athrawon allu defnyddio'r wybodaeth i addasu ein dosbarthiadau i ddiwallu anghenion unigol ein cwsmeriaid. Mae'r cofrestrau hyn yn weladwy i ddefnyddwyr eraill y pwll ac yn cael eu defnyddio gan rai gweithwyr pwll at ddibenion iechyd a diogelwch.

12.3 Mae eich preifatrwydd a diogelwch data o bwysigrwydd mawr i ni ond gwaetha'r modd nid yw'r rhyngwydd yn sianel gyfathrebu gwbl ddiogel. Mae unigolion sydd yn anfon data atom yn electronig yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain.

13. GWEITHDREFN AURA AR GYFER CYFLWYNO CANMOLIAETH / SYLWADAU

Rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gennym. Gallwch gysylltu â ni drwy lythyr, dros y ffôn, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb gydag unrhyw sylwadau.

Ysgrifennwch at:

Aura Leisure and Libraries Limited
Prif Swyddfa Aura
Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
Chester Road West
Queensferry

Sir y Fflint
CH5 1SA

E-bost: leisure.strategy@flintshire.gov.uk

Cwynion

Diben Aura yw bod o fudd i'r gymuned drwy wella ansawdd bywyd drwy ddarparu cyfleoedd diwylliant a hamdden sy'n gwella iechyd meddwl a lles corfforol. Felly rydym yn ceisio cyflawni hyn wrth ddarparu ein gwasanaeth. Rydym yn ystyried cwynion am ein gwasanaethau o ddifrif, ac yn ceisio defnyddio gwybodaeth o gwynion i wella'r gwasanaeth ac atal pethau rhag digwydd eto. Gallwch wneud eich cwyn:

- Drwy lythyr i'r cyfeiriad uchod.
- Drwy ffonio eich Canolfan Hamdden Aura
- Drwy anfon ebost i leisure.strategy@flintshire.gov.uk

Gellir tynnu cwynion yn ôl ar unrhyw adeg drwy lythyr, ffôn, e-bost neu yn bersonol yn eich cyfleuster Aura lleol.

Gellir gweld y weithdrefn gwyno lawn yn www.aura.cymru/cwyno